# Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg i Comisiynydd y Gymraeg

**Mai 2025**

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | Cyflwyniad | Tudalen 3 |
| **Pennod 2** | Cynnydd | Tudalen 5 |
| **Pennod 3** | Datblygiad yn y dyfodol | Tudalen 9 |

Cofrestrwch ar gyfer ein **hysbysiadau, newyddion a cyhoeddiadau**

Gweler ein datganiadau i'r wasg, ymgynghoriadau ac areithiau diweddaraf.





## Pennod 1

# Trosolwg

## Cyflwyniad

**1.1** Yr FCA yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer 45,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU a'r rheoleiddiwr darbodus ar gyfer dros 44,000 o'r cwmnïau hynny. Mae tua 1,400 o'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli yng Nghymru.

**1.2** Ein hamcan strategol yw sicrhau bod marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda a'n hamcanion gweithredol yw:

- amddiffyn defnyddwyr rhag ymddygiad gwael
- amddiffyn uniondeb system ariannol y Deyrnas Unedig
- hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr

**1.3** Ers 2023, mae gennym amcan eilaidd i hwyluso cystadleurwydd a thwf rhyngwladol economi'r DU yn y tymor canolig i'r tymor hir (yn amodol ar alinio â safonau rhyngwladol). Rydym wedi amlinellu sut y byddwn yn cyflawni hyn yn ein strategaeth 5 mlynedd.

**1.4** Rydym yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n cael ei ariannu'n gyfan gwbl drwy'r ffioedd rydym yn eu codi ar gwmnïau a reoleiddir. Rydym yn atebol i'r Trysorlys, sy'n gyfrifol am system ariannol y DU, ac i Senedd y DU.

**1.5** Diffinnir ein rôl a'n hamcanion yn bennaf gan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA). Rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach a chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr domestig, deddfwyr yr UE ac ystod eang o randdeiliaid eraill. Gyda'r cylch gwaith helaeth hwn, rydym yn defnyddio dull gweithredu cymesur o reoleiddio, gan flaenoriaethu'r meysydd a'r cwmnïau sy'n peri risg uwch i'n hamcanion. Mae gennym ddyletswydd o dan FSMA i ddefnyddio ein hadnoddau yn economaidd ac yn effeithlon.

**1.6** Rydym yn gweithio ar draws y DU gyda phrif swyddfa yn Llundain, swyddfeydd yn Leeds a Chaeredin a chydweithwyr yn Belfast a Chaerdydd. Cyflogir tua 4,500 o staff - gan ddarparu gwasanaethau i gwmnïau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**1.7** Mae'r adroddiad monitro Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r ymrwymiadau a chyflawni'r cynllun ers yr adroddiad diwethaf a gafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2024. Mae'n cynrychioli'r ail adroddiad mewn perthynas â'n Cynllun presennol.

## Cynllun Iaith Gymraeg yr FCA – crynodeb

1.8 Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg, a gafodd ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Chwefror 2023, yn disgrifio sut y byddwn, i'r graddau y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn gweithio i'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hefyd yn ystyried dyletswydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000, fel y'i diwygiwyd, i ddefnyddio ei adnoddau yn economaidd ac yn effeithlon.

1.9 Mae'r cynllun yma'n cael ei ystyried yn rhagweithiol ac yn darparu mwy o eglurder a ffocws mewn perthynas â'n cynnig Cymraeg a'r ffordd yr ydym yn ystyried yr iaith wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.





## Pennod 2

# Trosolwg o gynnydd ac uchafbwyntiau

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'n gweithgarwch dros y cyfnod adrodd. Mae Adran 4 isod yn darparu diweddariadau manwl ac mae Atodiad 1 yn cynnwys diweddariadau ar gyflawni camau gweithredu ail flwyddyn ein cynllun gweithredu.

2.2 Mae uchafbwyntiau'r cyfnod adrodd yn cynnwys:

- Cyhoeddi tudalen we datganiad polisi ac ymgynghoriad 'Mynediad at arian parod' yn Gymraeg ar ein gwefan. Yn 2024 fe wnaethom gyflwyno cyfundrefn reoleiddio newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fanciau a chymdeithasau adeiladu a ddynodwyd gan y Llywodraeth i asesu a llenwi bylchau, neu fylchau posibl, wrth ddarparu mynediad at arian parod. Fe wnaethom ymgynghori ac yna cyhoeddi'r rheolau terfynol – mae'r papur ymgynghori a'r tudalennau glanio papur polisi wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.
- Ymgorffori ein prosesau gwneud penderfyniadau i nodi cyhoeddiadau yr ydym yn eu cynnig yn rhagweithiol yn Gymraeg drwy ddefnyddio ein teclyn sgrinio cyfieithu. Roedd hyn yn cynnwys cynhyrchu gwybodaeth ychwanegol ar faterion Cynllun Iawndal Pensiwn Dur Prydain a diweddaru ein ffurflen AR30 (Ffurflen Flynyddol y mae'n rhaid ei gwblhau gan Gymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol).
- Sefydlu proses i'n galluogi i ddelio yn effeithiol â galwyr yn Gymraeg i'n canolfan gyswllt.
- Cyhoeddi erthygl ar 'Pulse', ein mewnrwyd, i hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg a chanllawiau staff.
- Parhau i adeiladu ein perthynas â Chomisiynydd y Gymraeg drwy ein hymgysylltiad monitro rheolaidd a mynychu nifer o weminarau.
- Darparu sesiynau briffio i staff newydd yn ein tîm cenhedloedd datganoledig ar ymrwymiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg. am.
- Cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol, ein dogfen gorfforaethol flaenllaw, yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

## Cynnydd – Delio â'r cyhoedd yng Nghymru

### Gohebiaeth

2.3 Rydym yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd yr amser y mae'n ei gymryd i ni ymateb yn Gymraeg yr un fath ag ar gyfer gohebiaeth sy'n cael ei dderbyn yn Saesneg.

2.4 Fel rhan o'n hymrwymiadau, rydym yn mabwysiadu dull rhagweithiol i roi cyhoeddusrwydd i'r cynnig hwn, gan gynnwys ar ein gwefan a'n gohebiaeth awdurdodi swyddogol gyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru.

2.5 Gallwn gadarnhau nad ydym yn trin y fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg cyfatebol, ac mae cefnogaeth ar gael i sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

2.6 Mae ein cyswllt e-bost ar gyfer pob ymholiad cyffredinol Cymraeg yn ymddangos yn amlwg ar ein gwefan.

### Cyfathrebu dros y ffôn

2.7 Yn unol â'n hymrwymiadau, rydym nawr yn cynnig opsiwn Cymraeg ar ein prif linellau cymorth ffôn ar gyfer defnyddwyr a chwmnïau lle gall galwyr siarad â'r FCA yn Gymraeg. Mae hyn yn cael ei hwyluso trwy wasanaeth cyfieithu 'galw yn ôl'.

### Cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau a thrafodion eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

2.8 Mae ein cynllun yn cynnwys dull mwy penodol i'r ffordd rydym yn trefnu ac yn cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru. Nid ydym yn trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau o'r fath yn rheolaidd.

2.9 Ni wnaethom gynnal arolygon ar bapur/ar-lein gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd

## Cynnydd – Ein hwyneb cyhoeddus

### Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

2.10 O fewn ein Cynllun, rydym yn ymrwymo wrth ymgymryd ag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a gweithgareddau hysbysebu yng Nghymru – wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru fel rhan o weithgarwch ledled y DU, i ddarparu deunydd perthnasol mewn fformat dwyieithog, neu fformat Cymraeg a Saesneg ar wahân. Rydym wedi diweddaru ein tudalen cynllun pensiwn Dur Prydain yn Gymraeg, ac fe wnaethom ddarparu posteri a phecynnau cymorth yn Gymraeg fel rhan o'n hymgyrch twyll ffioedd benthyciadau.

### Cyhoeddiadau defnyddwyr

2.11 Rydym wedi mabwysiadu dull symlach a chyson o sicrhau bod cyhoeddiadau generig ar gael yn ddwyieithog. Mae hyn yn ein galluogi i fabwysiadu dull mwy cymesur a rhesymol, ac mae'n cyd-fynd â nifer o sefydliadau eraill sy'n gweithredu o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg, felly bydd y dull yn gyfarwydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.12 Wrth symud ymlaen, bydd deunyddiau defnyddwyr a chyhoeddiadau corfforaethol ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn rhagweithiol:

- Lle maent yn ymwneud yn benodol â Chymru.
- Pan fydd cynnwys y pwnc yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.
- Pan fydd y gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.13 I sicrhau cysondeb, mae'r FCA wedi defnyddio proses sgrinio i adnabod dogfennau o'r fath.

2.14 Hefyd, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn ein Cynllun, cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol, sef ein prif ddogfen gorfforaethol, yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

### Gwefannau

2.15 Mae'r adran benodol ar gyfer y Gymraeg ar wefan yr FCA yn parhau i fod yn ffocws ac yn ganolbwynt ar gyfer ein holl ddeunydd Cymraeg. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog, yn ogystal â'n Cynllun Iaith a'n Cynllun Gweithredu. Mae'r adran Gymraeg yn hawdd i'w gyrchu o'r hafan.

2.16 Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi cofnodi cyfanswm o 1421 o ymweliadau â'r adrannau Cymraeg ar www.fca.org. Mae hyn wedi'i rannu'n 1236 i'n tudalennau Cymraeg a 185 i'n tudalennau defnyddwyr.

2.17 Mae'r dudalen we Gymraeg bellach yn cynnwys 'ffurflen cysylltwch â ni' yn y Gymraeg, lle gall siaradwyr Cymraeg lenwi ffurflen gyswllt gydag ymholiadau cyffredinol.

### Cyfryngau cymdeithasol

2.18 Rydym yn parhau i reoli cyfrif Cymraeg 'X' - @FCACymru. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu strategaeth cyfryngau cymdeithasol newydd ar gyfer yr FCA a byddwn yn ystyried sut bydd @FCACymru yn gweithredu o fewn hyn.

### Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

2.19 Yn yr un modd â'r ffordd yr ydym bellach yn ymdrin â chyhoeddiadau, rydym wedi mabwysiadu dull symlach a chyson i sicrhau bod ffurflenni ar gael yn Gymraeg yn rhagweithiol. Eto, mae hyn yn ein galluogi i gymryd safle mwy cymesur a rhesymol, ac mae'n cyd-fynd â sefydliadau eraill sy'n gweithredu o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg, felly bydd y dull yn gyfarwydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

2.20 Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod ffurflenni a deunyddiau esboniadol cysylltiedig ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn rhagweithiol

- Lle maent yn ymwneud yn benodol â Chymru.
- Pan fydd cynnwys y pwnc yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.
- Pan fydd y gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

2.21 Yn ystod y cyfnod adrodd ni wnaethom gyhoeddi unrhyw hysbysiadau swyddogol perthnasol, hysbysiadau cyhoeddus na hysbysiadau recriwtio staff.

### Codi ymwybyddiaeth

2.22 Rydym wedi hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg wrth hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru drwy ohebiaeth, ar ein gwybodaeth ffôn Gymraeg, ar ein gwefan ac ein cyfrif Cymraeg 'X'.

## Cynnydd – Gweithredu'r Cynllun

### Staffio, recriwtio, hyfforddiant iaith a hyfforddiant galwedigaethol

2.23 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw swyddi o fewn strwythur staffio'r FCA lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaethau'r Cynllun yn cael eu cyflawni, a gwneir hyn trwy weithio gyda chynghorwyr allanol a sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o'n hymrwymiadau a'u cyfrifoldebau.

2.24 Fe wnaethom gynhyrchu canllaw i weithwyr sy'n cwmpasu elfennau allweddol y cynllun i helpu ein cydweithwyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cyflawni a gweithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun.

### Trefniadau mewnol

2.25 Mae'r cynllun a'r ymrwymiadau a wnaed ynddo yn derbyn cefnogaeth lawn ein Uwch Arweinyddiaeth. Mae rheolwyr perthnasol yn gyfrifol am gyflawni camau gweithredu sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.

2.26 Mae'r adolygiad parhaus a monitro gweithrediad y cynllun yn cael ei gynnal gan y Pennaeth Marchnata, Digidol a Digwyddiadau yn y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu. Mae hyn yn galluogi'r FCA i sicrhau lefel o gysondeb o fewn yr adran sy'n bennaf gyfrifol am ein gwaith sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

## Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

2.27 Rydym yn falch o adrodd nad ydym wedi derbyn unrhyw gwynion mewn perthynas â'n gwasanaethau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.





## Pennod 3

# Datblygiad yn y dyfodol

3.1 Rydym yn credu fod y Cynllun Iaith Gymraeg presennol yn rhoi'r FCA mewn sefyllfa well nag erioed o ran ein darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ac yn pwysleisio ein hymrwymiad i'r iaith. Y ffocws dros y 12 mis nesaf yw cyflawni camau gweithredu blwyddyn olaf y Cynllun Gweithredu wrth gynllunio ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r cynllun, wedi'i drefnu ar gyfer Chwefror 2026.

## Atodiad 1

# Diweddariad y Cynllun Gweithredu (camau gweithredu blwyddyn 2)

| Cyf | Gweithred | Diweddariad |
|---|---|---|
| A4 | Byddwn yn darparu opsiwn Cymraeg ar ein prif linellau cymorth ffôn ar gyfer Defnyddwyr a Chwmnïau lle gall galwyr siarad â'r FCA yn Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei hwyluso trwy wasanaeth cyfieithu galw yn ôl pwrpasol. | Wedi'i gwblhau – gwasanaeth yn ei le ac yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i alwyr. |
| A5 | Darparu 'ffurflen cysylltwch â ni' Cymraeg lle gall siaradwyr Cymraeg lenwi ffurflen gyswllt gydag ymholiadau cyffredinol ar ein gwefan. | Wedi'i gwblhau. |



FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

© Financial Conduct Authority 2025
12 Endeavour Square London E20 1JN
Ffôn: +44 (0)20 7066 1000
Gwefan: www.fca.org.uk
Cedwir pob hawl

Cyfeirnod y cyhoeddiad: 1-008457

Mae ein holl gyhoeddiadau ar gael i'w lawrlwytho o www.fca.org.uk.

**Gofynnwch am fformat arall**

Cwblhewch y ffurflen hon os oes angen y cynnwys hwn arnoch mewn fformat arall.

Neu ffoniwch 0207 066 1000

Cofrestrwch ar gyfer ein **hysbysebion, newyddion ac hysbysebion**